Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER

# TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

**DIBEN: PENDERFYNIAD Y COMISIYNYDD – CYF. Deddf Diwygio'r Heddlu 2019 – Cytundeb Dewis 1**

**Amseru: Brys – angen penderfyniad er mwyn cyhoeddi adroddiad cyn 1 Chwefror 2020**

**Teitl: Newidiadau i'r ffordd yr ymdrinnir â chwynion heddlu**

**Categori Penderfyniad / Effaith ar Faes Busnes: Ansawdd Gwasanaeth**

**Crynodeb Gweithredol:**

Fel rhan o'r rhaglen Gwella Unplygrwydd yr Heddlu, mae trydydd cam diwygio'r systemau ar gyfer cwynion heddlu a disgyblu'n mynd rhagddo ar hyn o bryd. Bydd Cam 3 yn effeithio ar y ffordd y mae ymchwiliadau i gwynion, camymddwyn, marwolaethau neu anafiadau difrifol yn cael eu trin.

Mae'r cam hwn hefyd yn rhoi rôl gryfach i Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu o fewn y system gwyno ac yn darparu tri model gwahanol. Mae angen i'r CHTh benderfynu pa fodel yr hoffai weithredu.

**Cefndir:**

Fel rhan o'r rhaglen Gwella Unplygrwydd yr Heddlu, mae trydydd cam diwygio'r systemau ar gyfer cwynion heddlu a disgyblu'n mynd rhagddo ar hyn o bryd.
Roedd cam 1 yn ymwneud â rheoliadau camymddwyn sy'n berthnasol ar gyfer cyn swyddogion a chyflwyniad y rhestri ymgynghorol a gwahardd.
Roedd cam 2 yn ymwneud â'r newid o Gomisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu i Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu a chyflwyno deddfwriaeth sy'n caniatáu i gyrff dynodedig wneud cwynion uwch – gall sefydliadau wneud cais i fod yn gyrff dynodedig er mwyn codi materion systematig mewn plismona lle y mae nodwedd o blismona gan un heddlu neu fwy yn niweidio buddiannau'r cyhoedd yn sylweddol, neu'n ymddangos felly.
Mae cam 3 yn ymwneud â chyflwyno'r canlynol:

- Rheoliadau (Ymddygiad) yr Heddlu 2019
- Rheoliadau (Cwynion a Chamymddwyn) yr Heddlu 2019
- Rheoliadau (Perfformiad) yr Heddlu 2019
- Rheoliadau Tribiwnlys Apêl yr Heddlu 2019

Bydd Cam 3 yn effeithio ar y ffordd y mae ymchwiliadau i gwynion, camymddwyn, marwolaethau neu anafiadau difrifol yn cael eu trin. Mae'r cam hwn hefyd yn rhoi rôl gryfach i Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu o fewn y system gwyno ac yn darparu tri model gwahanol. Mae angen i'r CHTh benderfynu pa fodel yr hoffai weithredu.

**Dewisiadau Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu**

| | Dewis 1 (Gorfodol) | Dewis 2 | Dewis 3 |
|---|---|---|---|
| Derbyn cwynion a bod y cyntaf i gysylltu â'r achwynydd | YR HEDDLU | CHTh | CHTh |
| Trin cwynion y tu allan i Atodlen 3 a chofnodi cwynion | YR HEDDLU | CHTh | CHTh |
| Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i achwynwyr a rhoi gwybod iddynt am y canlyniad | YR HEDDLU | YR HEDDLU | CHTh |
| Ymchwilio i gwynion | YR HEDDLU | YR HEDDLU | YR HEDDLU |
| Adolygu Cwynion | CHTh | CHTh | CHTh |

**Newid i'r model o ddewis**

Gall Cyrff Plismona lleol ond newid o un model i fodel arall ar ôl ymgynghori â'r canlynol:

- Prif Gwnstabl yr Heddlu
- Unrhyw swyddog heddlu neu aelod staff a allai gael ei effeithio gan newid

Yna, cyhoeddir canfyddiadau ac ystyrir sylwadau cyn rhoi 28 diwrnod o rybudd am newid, neu gadarnhau na fydd unrhyw newid.

**Y Cynllun Heddlu a Throseddu**

Mae Comisiynwyr Heddlu a Throseddu'n gweithredu fel llais y cyhoedd ar faterion plismona a throsedd. Maen nhw'n gyfrifol am osod y cyfeiriad strategol ar gyfer plismona o fewn eu hardaloedd heddlu unigol.

Cyn hir (Ionawr/Chwefror 2020 yn ôl pob tebyg), byddant yn rhan o weithredu deddfwriaeth cwynion ac ymddygiad newydd sy'n deillio o ddiwygiadau 2019 i unplygrwydd yr heddlu. Elfen allweddol o'r diwygiadau fydd cynnal adolygiadau annibynnol o gwynion heddlu lle y mae'r Comisiynydd wedi'i farnu fel y corff apêl perthnasol ac mae'r achwynydd yn gwneud cais ffurfiol am adolygiad mewn perthynas â'r ffordd y mae'r heddlu wedi trin ei gŵyn.

Mae hyn yn ffurfio rhan o flaenoriaethau'r Comisiynydd h.y. cadw ein cymunedau'n ddiogel, diogelu'r rhai sy'n agored i niwed a chysylltu â chymunedau.

**Argymhelliad**

Dewis 1 sy'n cael ei ystyried fel yr ymagwedd o ddewis ar gyfer Dyfed-Powys. Golyga hyn y bydd Heddlu Dyfed-Powys yn parhau i reoli cwynion. Yn unol â'r ddeddfwriaeth, bydd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu'n gyfrifol am ystyried gweithredu prosesau a gweithdrefnau cwynion yr heddlu mewn achosion unigol, ac yn penderfynu ar ganlyniad yr adolygiad wedyn.

Mae'r rheswm dros y penderfyniad hwn yn seiliedig ar gyfrifoldebau statudol Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, fel y cynhwysir o fewn Gorchymyn Protocol Plismona 2011. Mae adran 17 yn dweud bod gan y CHTh ddyletswydd a phŵer cyfreithiol i gefnogi a herio perfformiad cyffredinol yr Heddlu a chraffu arno, gan gynnwys yn erbyn y blaenoriaethau y cytunwyd arnynt o fewn y Cynllun. Wrth ystyried y cyfrifoldeb hwn, mae gofyniad ar gyfer amhleidioldeb ac annibyniaeth o'r adeg y mae cwyn yn cael ei chofnodi am y tro cyntaf. Er mwyn ymgymryd ag adolygiad/asesiad cwbl annibynnol o gŵyn, ystyriwyd mai Dewis 1 yw'r unig fodel sy'n darparu'r annibyniaeth a thryloywder gofynnol, er mwyn galluogi'r CHTh i gydymffurfio â'i ddyletswydd statudol i herio cwynion sy'n cael eu trin gan Heddlu Dyfed-Powys a chraffu arnynt.

Mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu'n awgrymu cynnal adolygiad o Fodel 1 18 mis ar ôl ei weithredu.

**Gwaith ar y Cyd**

Mae Comisiynwyr Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys, Gwent a Gogledd Cymru'n ceisio penodi darparwr gwasanaeth annibynnol i gynnal adolygiadau annibynnol ar eu rhan. Bydd hyn am gyfnod o 12 mis, gyda'r dewis i estyn y cytundeb am 12 mis arall.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod / Nid wyf yn cymeradwyo'r cais uchod / Nodaf y wybodaeth o fewn yr adroddiad (dileer fel y bo'n briodol).

**Llofnod:** Dafydd Llywelyn **Dyddiad:** 27.01.2020